

Cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Anffurfio Organau
Cenhedlu Benywod 2003

I'w llenwi gan y llys	
Dyddiad cyflwyno	
Rhif yr achos	
Enw'r llys	
Ffi a godwyd/Cy-feirnod dileu ffi	

Darllenwch y nodiadau atodol wrth i chi llenwi'r ffurflen hon

Noder: Os ydych yn geisydd unigol, **NI DDYLECH** gyflwyno'r dogfennau ar yr unigolyn rydych yn ceisio gorchymyn yn ei erbyn eich hun.

1. Amdanoch chi (y ceisydd)

Pwy ydych chi? (ticiwch un blwch yn unig)

- yr unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn hwn (gweler tudalen 7)
- trydydd parti perthnasol (gweler tudalen 7)

Enw llawn

Os nad ydych eisiau i'r atebdydd wybod eich cyfeiriad gadewch y rhan hon yn wag a llenwi Ffurflen cyfeiriad cyfrinachol C8, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes. Gweler y nodiadau ar dudalen 7.

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn (dewisiol)

Dyddiad geni (os ydych o dan 18 oed)

Ar gyfer trydydd partiön perthnasol

Enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

Swydd yn y sefydliad

4. Ynglŷn â'r atebydd/atebwyr

Os oes mwy na dau atebydd, parhewch ar ddalen ar wahân.

Atebydd 1

Mr Mrs Miss Ms Arall (rhowch fanylion)

Enw llawn

Address

Cod post

Dyddiad geni (os yw'n hysbys)

Atebydd 2

Mr Mrs Miss Ms Arall (rhowch fanylion)

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad geni (os yw'n hysbys)

5. Y gorchymyn/gorchmynion yr ydych yn gwneud cais amdano/amdanynt

Nodwch beth rydych eisiau i'r gorchymyn ei ddweud (gweler yr enghreifftiau ar dudalen 7). Rhowch fanylion llawn i gefnogi eich cais isod (defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau os oes angen) neu mewn datganiad ar wahân. Rhowch fanylion unrhyw anogaeth neu ymgais i ddenu y mae'r atebydd wedi'i defnyddio.

- Ticiwch y blwch hwn os ydych yn dymuno i'r llys wrando eich cais heb roi rhybudd i'r atebydd. Rhaid nodi'r rhesymau dros ofyn i gael gwrandawriad ar gyfer y cais heb rybudd yn y datganiad tyst (wedi'i gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd) sy'n cefnogi'r cais. Gweler y canllawiau ar dudalen 7.

6. Yn y llys

Os bydd angen cyfieithydd arnoch chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, rhaid i chi ddweud wrth y llys nawr fel y gellir trefnu bod un yn bresennol.

A fydd arnoch chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn angen cyfieithydd yn y llys?

- Na fydd
- Bydd – nodwch ba iaith a thafodiaith

Os oes angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd sydd gennych chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, dywedwch beth sydd ei angen, os gwelwch yn dda. Bydd staff y llys wedyn yn cysylltu â chi os bydd angen.

Dywedwch a fydd angen i'r llys wneud unrhyw drefniadau arbennig ar eich cyfer chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, er mwyn i chi allu dod i'r llys (e.e. darparu ystafell aros ar wahân ar eich cyfer).

7. Gwybodaeth arall

8. Achosion a gorchmynion eraill

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw achosion neu orchmynion teulu sydd mewn grym sy'n gysylltiedig â chi, yr atebydd/atebwyr neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, dywedwch pa fath o achosion ydynt, os ydych yn gwybod.

9. Datganiad gwirionedd

[Rwyf yn credu][Mae'r ceisydd yn credu] bod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir.

*Cefais ganiatâd priodol gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Printiwch eich enw llawn

Enw ffyrm cyfreithwyr y ceisydd

Llofnod

(Ceisydd) (Cyfreithiwr y ceisydd)

Dyddiad

--	--	--	--	--	--	--	--

Gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn rhywun sy'n gwneud datganiad anwir neu'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen sy'n cael ei gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd

*dileer fel sy'n briodol

Rhaid cyflwyno'r cais hwn i'r atebwyr a'r unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn

Noder: Os ydych yn geisydd unigol, **NI DDYLECH** gyflwyno'r dogfennau ar yr unigolyn rydych yn ceisio gorchymyn yn ei erbyn eich hun.

Cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM

Canllawiau

Darllenwch y nodiadau hyn ochr yn ochr â'r daflen FGM700 – **FGM700 - Gorchymynion Amddiffyn rhag FGM**

Adran 1 - Ceiswyr

Ceir tri math o geisydd. Yr unigolyn sydd i'w amddiffyn, rhywun ar eu rhan a thrydydd parti perthnasol.

Os chi yw'r unigolyn sydd i'w amddiffyn a'ch bod chi eich hun yn gwneud cais am orchymyn, naill ai gyda neu heb gynrychiolydd cyfreithiol, rydych chi thau hefyd yn geisydd.

Llenwch adran 1 yn unig, ac yna ewch ymlaen i adran 4.

Unigolyn neu sefydliad sy'n cael gwneud cais ar ran rhywun arall heb ganiatâd y llys yw ceisydd trydydd parti perthnasol. Yr Arglwydd Ganghellor yn unig sy'n cael gwneud unigolyn neu sefydliad yn drydydd parti perthnasol, er enghraifft awdurdod lleol.

Os nad ydych yn drydydd parti perthnasol ac os nad chi yw'r unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn, cewch wneud cais ond bydd arnoch angen caniatâd gan y llys. Gall y llys roi'r ffurflen (FGM006) i chi wneud cais am ganiatâd.

Manylion cyfeiriad

Os nad ydych eisiau i'r atebydd wybod eich cyfeiriad chi, neu gyfeiriad unrhyw un a enwir yn y ffurflen gais, gadewch y blwch/blychau ar y ffurflen yn wag a llenwch y Ffurflen Cyfeiriad Cyfrinachol C8. Gall y llys roi'r ffurflen hon i chi.

Adran 2 – Yr unigolyn sydd i'w amddiffyn

Nid oes angen llenwi'r adran hon oni bai eich bod yn gwneud cais ar ran rhywun. Os chi yw'r unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn hwn, gadewch yr adran hon yn wag.

Manylion cyfeiriad

Os nad ydych eisiau i'r atebydd wybod cyfeiriad yr unigolyn sydd i'w amddiffyn, gadewch y blwch yn wag a llenwch y Ffurflen Cyfeiriad Cyfrinachol C8. Gall y llys roi'r ffurflen hon i chi.

Adran 4 - Atebwyr

Yr enw ar y sawl yr ydych am i'r llys wneud gorchymyn yn ei erbyn yw'r atebydd. Gall fod mwy nag un atebydd.

Os gwyddoch am bobl eraill a allai ddod yn gysylltiedig â'r achos fel atebwyr, rhowch eu manylion yn adran 6.

Adran 5 - Y Gorchymyn

Mae Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM yn amddiffyn dioddefwyr neu ddioddefwyr posib FGM. Mae pob Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM yn benodol i achos unigol ac yn cynnwys telerau sy'n newid ymddygiad yr atebydd a phobl eraill.

Dyma enghreifftiau o bethau y byddwch, efallai, am i'r llys eu gorchymyn:

- nad yw'r atebydd i fynd â chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn dramor er mwyn cyflawni neu geisio cyflawni FGM
- nad yw'r atebydd i gychwyn unrhyw drefniadau yn y DU neu dramor i FGM gael ei gyflawni arnoch chi neu ar yr unigolyn sydd i'w amddiffyn
- bod yr atebydd yn ildio ei basbort neu unrhyw ddogfennau teithio eraill a/neu basbort yr unigolyn a enwir yn y cais.

Yn adran 5 neu mewn datganiad ar wahân, dywedwch pam rydych yn gwneud cais a rhowch fanylion llawn.

Gorchymynion brys

Gelwir gorchymyn brys a wneir gan y llys cyn cyflwyno'r rhybudd o gais i'r atebydd yn orchymyn heb rybudd. Wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn heb rybudd, bydd y llys yn ystyried holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys:

- unrhyw berygl o weithred FGM yn cael ei chyflawni ar yr unigolyn sydd i'w amddiffyn neu unigolyn arall, os na wneir y gorchymyn ar unwaith.

- a yw'n debygol y caiff y ceisydd ei rwystro neu ei atal rhag parhau â'r cais os na wneir gorchymyn ar unwaith.
- a oes lle i gredu bod yr atebydd yn ymwybodol o'r achos ond mae'n fwriadol yn osgoi bod ar gael ar gyfer cyflwyno'r gorchymyn, a bydd yr oedi'n rhoi'r unigolyn sydd i'w amddiffyn neu'r ceisydd dan anfantais ddifrifol.

Os ydych yn gwneud cais am orchymyn 'heb rybudd', mae'n rhaid i chi gynnwys y rhesymau pam y dylai'r llys ddelio â'r cais heb roi gwybod i'r atebydd yn gyntaf. Rhaid i chi ddarparu datganiad tyst sydd wedi'i gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd.

Gall y llys ddweud wrthy ch sut i wneud hyn.

Os bydd y llys yn gwneud gorchymyn 'heb rybudd', mae'n rhaid iddo roi cyfle i'r atebydd neu unigolyn arall gyflwyno sylwadau ynghylch y gorchymyn cyn gynted ag y bo'n gyfiawn ac yn gyfleus mewn gwrandawriad llawn.

Rhagor o fanylion

Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais yn y daflen FGM700 Gorchymynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Mae'r daflen yn cynnwys gwybodaeth am ddod i'r llys, a beth sy'n digwydd os bydd atebydd neu unigolyn arall yn methu ufuddhau i orchymyn y llys.

Gallwch lwytho'r daflen hon a manylion eich llys lleol oddi ar ein gwefan

<http://hmctsformfinder.justice.gov.uk>